# Cofnodion Cyfarfod 7/11/2024

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Eifion Roberts, Eluned Jones, Eric Williams, Moira Mai, Huw Symonds, Clare Mackintosh, Sion McGuinness, Rhys Evans, Jacqueline Allen, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Fiona Hopkins.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**Hefyd yn bresennol:** John Caradog Williams a'r teulu ar gyfer rhan gyntaf y cyfarfod.

4 o staff Parc Cenedlaethol ar gyfer y drafodaeth ddilynol.

**Anrhydeddu:** Croesawyd y cyn gynghorydd John Caradog Williams a'r teulu i ran gyntaf y cyfarfod, hyn er mwyn cael cyfle i'w anrhydeddu ac i ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor Tref ac i drigolion y Bala am gyfnod o 48 mlynedd. Talwyd y diolchiadau gan y Cyng Eifion Roberts, a fu'n cydweithio gyda John am flynyddoedd ar y cyngor. Dywedodd fod John wedi rhoi oes o wasanaeth i'r cyngor, a bod ei brofiad o hyd yn werthfawr i aelodau iau y cyngor. Dywedodd fod y dref wedi bod yn ffodus o'i gael fel cynghorydd, a'i fod wedi gweithio yn dawel a diflino ar hyd y blynyddoedd. Ymatebodd John trwy ddiolch i bawb am eu cydweithrediad ar hyd y blynyddoedd, a dymunodd yn dda i'r cyngor i'r dyfodol. Cyflwynwyd plât wedi ei addurno i John fel arwydd o werthfawrogiad o'i waith.

**Parc Cenedlaethol Eryri:** Croesawyd Angela Jones, David Prysor, Arwel Morris a Simon Jones i'r cyfarfod. Eglurodd Angela Jones eu bod yn gweithio ar Gynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol, ac yn cydweithio gyda chymunedau i ddod a phobl at ei gilydd. Trafodwyd problemau parcio yn yr ardal, yn benodol yr ardal o'r bala i Langywer, ac hefyd blaendraeth Llyn Tegid. Trafodwyd y posibilrwydd o osod barier wrth fynedfa'r blaendraeth i rwystro parcio dros nos ar y safle, ac i gyfeirio gyrwyr i feysydd parcio'r Plase a'r Grin pan fydd y blaendraeth yn llawn, fel bod busnesau'r dref yn elwa o'r ymwelwyr. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o gydweithio hefo perchenogion tir lleol i ganfod datrysiad i'r broblem. Trafodwyd diogelwch staff y Parc wrth ddelio hefo ymwelwyr, ac hefyd y posibilrwydd o gynyddu'r tâl parcio ger y llyn. Trafodwyd y posibilrwydd o ail ddylunio'r ardaloedd parcio ar y blaendraeth, gan ofalu fod mynediad i gerbydau argyfwng bob amser. Cytunwyd fod newid ymddygiad ymwelwyr yn cymryd amser, a bod rôl i addysgu pobl wrth wneud hyn. Tynnwyd sylw at Gynllun Gwirfoddoli Caru Eryri sy'n rhoi cyfleoedd gwirfoddoli i drigolion y Parc Cenedlaethol. Diolchwyd i staff y Parc am eu hamser a'u cynlluniau ar gyfer y Bala.

1. **Y Maer:** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiad o fuddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 3/10/24.

4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

    i. Sedd Wag y Cyngor: Derbyniwyd un datganiad o ddiddordeb ar gyfer sedd ar y cyngor, ac yn dilyn trafodaeth fe gytunwyd yn unfrydol i gyfethol Ken Edwards fel aelod o'r cyngor tref.

    ii. Tomen y Bala: Cytunwyd i barhau i drafod y bwriad i osod meinciau ar y Domen gyda'r Clwb Rotari, a nodwyd y byddai meinciau o ddeunydd du wedi ei ailgylchu yn addas. Cytunwyd i drafod gosod plac bychan ar y fainc. Nodwyd fod bylchau wedi eu creu yng ngwrych y domen i hwyluso gwelediad o'r golygfeydd lleol. Cytunwyd hefyd i gydweithio hefo staff y Parc Cenedlaethol i reoli rhododendron ar y domen, hyn fel rhan o'r Gronfa Her Natur a chynllun bioamrywiaeth y cyngor tref.

    iii. Cynllun Creu Lle: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod ar Hydref 10fed pryd y nodwyd fod prosiectau sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Creu Lle yn agored i'w hystyried i'w hariannu gan wahanol gronfeydd cyhoeddus. Nodwyd y bydd Cwmni Pum Plwy Penllyn yn cydlynu gwaith y fforwm leol, a bod prosiectau posibl yn cynnwys creu brand digidol i'r dref, datblygu'r Stryd Fawr, creu Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy a datblygu syniadau ar gyfer Neuadd Buddug.

    iv. Cynllun Celf Canol Trefi: Nodwyd fod y gwaith wedi ei gwblhau, a hyn wedi golygu cydweithio agos rhwng nifer o gyrff ac unigolion. Cytunwyd y byddai'n dda cael lansiad i'r gwaith, ac awgrymwyd cynnal lansiad fel rhan o'r Noson Siopa Hwyr ar Ragfyr 5ed.

    v. Materion Stryd Fawr – Adroddwyd na chafwyd ymateb gan NMWTRA i'r cais am dabl o gyfrifoldebau gwahanol awdurdodau am wahanol agweddau o reoli'r Stryd Fawr.

    vi. Ardal Chwarae Cysgod y Coleg: Derbyniwyd ymateb gan Adra yn nodi nad oes ganddynt gynlluniau penodol i ddatblygu'r ardal chwarae.

    vii. Glanhau Llochesi Bws: Derbyniwyd prisiad cychwynnol am lanhau dau loches bws ychwanegol rhwng Cae Croes a'r Ganolfan Hamdden. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i hysbysebu'r gwaith, gyda'r cytundeb i ddod i ben yr un pryd â chytundeb gweddill llochesi bws y dref.

    viii. Trwydded Clwb Rygbi: Derbyniwyd gwybodaeth fod Cyngor Gwynedd yn cynnal gwrandawiad ar y cais hwn ar Dachwedd 11eg. Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd ystyried sylwadau gwreiddiol y Cyngor Tref ar y cais.

    ix. Meinciau ger cofeb Tom Ellis: Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi cynnig atgyweirio'r meinciau. Nodwyd y byddai'n well eu hail leoli mewn lleoliad gwahanol ar ôl cwblhau'r gwaith, i ffwrdd o'r coed ar y Stryd Fawr.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, a dywedodd fod Gweinidog Plant Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi ymweld â'r Bala yn ddiweddar. Dywedodd fod rhagolygon ariannol Cyngor Gwynedd yn ddyrys, a bod toriadau yn debygol mewn gwasanaethau. Dywedodd fod y palmentydd ger Ysgol Godre'r Berwyn yn cael eu hail wneud, a dywedodd hefyd fod gwahoddiad i'r Maer gymryd rhan mewn podcast gan Gwmni Rheilffordd Llyn Tegid.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Cafwyd diweddariad o'r dathliadau, a nodwyd fod y gweithgareddau yn tynnu at y terfyn, gyda dim ond dau ddigwyddiad ar ôl. Adroddwyd y bydd pared llusernau yn y dref nos Sadwrn 2 Tachwedd, a bod y pared yn mynd bob cam o'r Orsaf Dân hyd at y Ganolfan Hamdden, yng nghwmni Band Arian Llangollen. Atgoffwyd pawb o Noson Sêr y Bala ar Dachwedd 14eg, yng nghwmni plant Ysgol Godre'r Berwyn, Glain Rhys a Dilwyn Morgan.

7. **Is-bwyllgorau:**
   Is Bwyllgor Nadolig: Adroddwyd fod y goleuadau Nadolig wedi eu gosod, a'r trefniadau goleuo yn eu lle.
   Is Bwyllgor Asedau: Adroddwyd fod y slabiau peryglus ar balmentydd y dref wedi eu hatgyweirio.
   Is bwyllgor Tref Gyfeillgar: Dim i'w adrodd.
   Is Bwyllgor Bioamrywiaeth: Adroddwyd fod planters wedi eu plannu'n ddiweddar, ac y bydd angen plannu mwy yn 2025.
   Is bwyllgor cyllid: Gwnaed trefniadau i gyfarfod ddechrau Rhagfyr, a gofynnwyd i bob is bwyllgor nodi eu anghenion ariannol i'r clerc erbyn hynny.
   Is bwyllgor Twristiaeth Gynaliadwy: Adroddwyd fod y grŵp wedi cyfarfod, ac wedi amlinellu eu cylch gorchwyl. Nodwyd eu bod yn gweithio tuag at amcanion Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy Parc Cenedlaethol Eryri a Chynllun Ardal Ni Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai un o brif amcanion y grŵp fydd creu brand digidol a gwefan hyrwyddo i'r dref.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

Un Llais Cymru Meirionnydd: Dim adroddiad.
Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn: Dim adroddiad.
Cwmni Pum Plwy Penllyn: Adroddwyd fod y gwaith o uwchraddio Canolfan Bro Tegid ar fin cychwyn, a bod y mudiadau sy'n defnyddio'r ganolfan yn ymwybodol o'r gwaith.

8. **Materion Cynllunio**: Nid oedd ceisiadau i'w hystyried.

9. **Materion Cyllid:**
   i. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £16,978.98 yn y cyfri cyfredol, £26,691.54 yn y cyfri cadw a £327.50 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod balans o £2,193.46 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd, a £3,000 wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiad y Cae Astro.
   ii. Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog y Clerc, anfonebau'r Cyfnod, Capel Clai, anfonebau Bala 700 ac anfonebau blodau.

iii. Derbyniwyd ceisiadau am gymorth ariannol gan Eisteddfod genedlaethol yr Urdd ac Ambiwlans Awyr Cymru, ac fe gytunwyd i'w hystyried yn gynnar yn 2025.

**10. Gohebiaeth:**

i) Triathlon: Derbyniwyd neges gan drefnwyr y triathlon yn diolch am gydweithrediad pawb yn ystod digwyddiad 2024, ac yn cadarnhau y cynhelir triathlon 2025 ar Fedi 7fed.

ii) Un Llais Cymru – derbyniwyd gwybodaeth am Gylch Gorchwyl Is Bwyllgorau'r cyngor, digwyddiad ar y cyd â'r SLCC a gwybodaeth am y cynllun Hybiau Diogel a Chynnes.

iii) Cyngor Gwynedd – derbyniwyd gwybodaeth am waith y tîm Ardal Ni, cais am wybodaeth am eiddo gwag ar y Stryd Fawr, rhybudd cau Heol Arenig dros dro ar gyfer gwaith hanfodol a gwybodaeth am Gynllun Trefi natur y cyngor.

iv) Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr - derbyniwyd gwybodaeth am eu Sioe Deithiol a gynhelir yn fuan ym Mhwllheli.

v) Comisiwn Cymunedau Cymraeg – derbyniwyd copi o adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, ac fe gytunwyd i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tre.

vi) Plas Tan y Bwlch – Derbyniwyd llythyr yn gofyn am gefnogaeth i gadw Plas Tan y Bwlch mewn perchenogaeth cyhoeddus neu gymunedol. Cytunwyd i gefnogi'r cais.

vii) Theatr Derek Williams – derbyniwyd copi gais y theatr am Drwydded Eiddo. Cytunwyd i gefnogi'r cais, ond nodwyd y dylai'r cais hefyd fynd o flaen Llywodraethwyr Ysgol Godre'r Berwyn.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

i) Diogelwch yr A494: Derbyniwyd sylwadau am ddiogelwch y ffordd i fewn i'r dref o gyfeiriad Llanfor. Gofynnwyd i'r clerc ymateb i'r sylwadau. Nodwyd hefyd fod gwaith yn parhau ar yr A494 ger Glan yr Afon, a bod hyn yn cael effaith ar y dref.

ii) Sul y Cofio: Atgoffwyd yr aelodau o Wasanaeth Sul y Cofio ddydd Sul Tachwedd 10fed.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 12 Rhagfyr 2024.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)